OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1512 (Cy.148)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *13 Mehefin 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *14 Mehefin 2006* |

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud y Rheoliadau canlynol o dan y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael ei ddynodi at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau ym meysydd milfeddygol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Yr enw ar y Rheoliadau hyn fydd Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006, maent yn gymwys i Gymru ac yn dod i rym ar 14 Mehefin 2006. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i anifeiliaid a gedwir ar gyfer pwrpasau ymchwil mewn mangreoedd a gymeradwyir ar gyfer y pwrpas hynny o dan reoliadau Eneffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006(**3**).

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "anifail buchol" ("bovine animal") yw gwartheg yn cynnwys buail a byfflo (gan gynnwys byfflo dŵr);

ystyr "BSE" ("BSE") yw enseffalopathi sbyngffurf buchol;

mae gan "pasbort gwartheg" ("cattle passport") yr un ystyr ag sydd yn Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998(**4**);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("National Assembly") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2003/1246.
(**3**) O.S. 2006/1226.
(**4**) O.S. 1998/871, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/2969 ac O.S. 1999/1339.

**Iawndal am anifeiliaid buchol sy'n cael eu cigydda oherwydd TSE**

**3.** Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol dalu iawndal–

(a) pan fo anifail yn cael ei ladd o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006;

(b) pan fo anifail i'w ladd o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006, a bod yr anifail wedi ei brisio ar gyfer pwrpasau iawndal, ond fod yr anifail yn marw (neu yn cael ei ladd am resymau eraill) wedi prisio; neu

(c) lle bo anifail yn ddarostyngedig i gyfyngiad symud o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 a bod yn rhaid ei ladd fel mater o frys, a bod milfeddyg wedi datgan yn ysgrifenedig y byddai'r anifail fel arall wedi bod yn addas i'w fwyta gan bobl yn unol â Phennod VI o Adran I o Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 853/2004 o Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(**5**), ac os felly yr iawndal yw gwerth y corff (gan gynnwys y gwaed a'r croen).

**Swm yr iawndal sy'n daladwy**

**4.**—(1) Yr iawndal yw'r pris cyfartalog a delir ym Mhrydain fawr am anifail o'r oed a'r categori hwnnw o anifail–

(a) yn y chwe mis blaenorol yn achos anifail pedigri; ac

(b) yn achos unrhyw anifail buchol eraill, yn y mis blaenorol

(2) Anifail pedigri yw anifail sydd wedi cael tystysgrif pedigri gan sefydliad neu gymdeithas bridwyr sy'n cyflawni amodau Penderfyniad y Cyngor 84/247/EEC sy'n gosod y meini prawf ar gyfer cydnabod sefydliadau a chymdeithasau bridwyr sy'n cadw llyfrau buches ar gyfer anifeiliaid bridio pur o'r rhywogaeth buchol(**6**).

(3) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gategoreiddio anifeiliaid fel a ganlyn, ac at bwrpas penderfynu ynglŷn â pha gategori i roi'r anifail, oed yr anifail yw'r oed, fel y dangosir gan ei basport gwartheg, ar y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad o'r bwriad i'w ladd.

**Categorïau**

| *Gwryw* | *Menyw* |
|---|---|
| **Sector Eidion—anifail sydd ddim yn bedigri** | |
| Hyd at ac yn cynnwys 3 mis | Hyd at ac yn cynnwys 3 mis |
| Dros 3 mis hyd at ac yn cynnwys 6 mis | Dros 3 mis hyd at ac yn cynnwys 6 mis |
| Dros 6 mis hyd at ac yn cynnnwys 9 mis | Dros 6 mis hyd at ac yn cynnwys 9 mis |
| Dros 9 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis | Dros 9 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis |
| Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 16 mis | Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 16 mis |
| Dros 16 mis hyd at ac yn cynnwys 20 mis | Dros 16 mis hyd at ac yn cynnwys 20 mis |
| Dros 20 mis– | Dros 20 mis– |
| Teirw bridio | Wedi bwrw llo |
| Arall | Heb fwrw llo |

(**5**) OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.22.
(**6**) OJ Rhif L125, 12.05.1984, t.58.

| *Gwryw* | *Menyw* |
|---|---|
| **Sector Llaeth—anifail sydd ddim yn bedigri** | |
| Hyd at ac yn cynnwys 3 mis | Hyd at ac yn cynnwys 3 mis |
| Dros 3 mis hyd at ac yn cynnwys 6 mis | Dros 3 mis hyd at ac yn cynnwys 6 mis |
| Dros 6 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis | Dros 6 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis |
| Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 16 mis | Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 16 mis |
| Dros 16 mis hyd at ac yn cynnwys 20 mis | Dros 16 mis hyd at ac yn cynnwys 20 mis |
| Dros 20 mis | Dros 20 mis– |
| | Wedi bwrw lloHeb fwrw llo |
| **Sector Eidion — anifail pedigri** | |
| 6 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis | 6 mis hyd at ac yn cynnwys 12 mis |
| Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 24 mis | Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 24 mis |
| Dros 24 mis | Dros 24 mis (heb fwrw llo) |
| | Wedi bwrw llo o dan 36 mis |
| | Wedi bwrw llo 36 mis a drosodd |
| **Sector Llaeth—anifail pedigri** | |
| Hyd at ac yn cynnwys 2 fis | Hyd at ac yn cynnwys 2 fis |
| Dros 2 fis hyd at ac yn cynnwys 12 mis | Dros 2 fis hyd at ac yn cynnwys 10 mis |
| Dros 12 mis hyd at ac yn cynnwys 24 mis | Dros 10 mis hyd at ac yn cynnwys 18 mis |
| Dros 24 mis | Dros 18 mis (heb fwrw llo) |
| | Wedi bwrw lllo o dan 36 mis |
| | Wedi bwrw llo 36 mis a throsodd |

**Eithriadau i'r swm o iawndal sydd yn daladwy**

**5.**—(1) Lle bo'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn nad yw'r data i gyfrifo'r pris cyfartalog yn ddigonol, yna mae'n rhaid iddo dalu iawndal–

(a) am anifeiliaid yn y categori hwnnw, y pris cyfartalog a gyfrifwyd yn flaenorol yn fwyaf diweddar lle roedd digon o ddata i gyfrifo'r pris cyfartalog; neu

(b) pris y farchnad, am yr anifail unigol.

(2) Ar gyfer byfflo neu bison, yr iawndal yw pris y farchnad.

(3) Pris y farchnad yw'r pris y gellid yn rhesymol fod wedi ei gael am anifail unigol oddi wrth brynwr yn y farchnad agored adeg prisio pe na bai'n ofynnol lladd yr anifail o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006, wedi ei gyfrifo o dan reoliad 15 o Reoliadau Enseffalopathïau Trosgwlyddadwy (Cymru) 2006, gyda'r ffioedd am enwebu'r prisiwr a ffioedd y prisiwr yn daladwy gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Dirymu**

**6.** Dirymir Rheoliadau 8, 9, 84, 93, Rhan III o Atodlen 1, rheoliad 17 o Ran IV o Atodlen 6A a rheoliadau 4 ac 8 o Atodlen 7, sydd yn ymwneud â thalu iawndal yn dilyn cigydda anifail buchol, o Reoliadau TSE (Cymru) 2002(**7**)pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**8**)

*D. Elis-Thomas*
13 Mehefin 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**7**) O.S. 2002/1416
(**8**) 1998, p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn darparu swm yr iawndal sydd yn daladwy pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn peri cigydda anifail buchol o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu mai swm yr iawndal sydd yn daladwy ar gigydda anifail buchol yw y pris cyfartalog a dalwyd ym Mhrydain Fawr ar gyfer oed a chategori yr anifail yn y chwe mis blaenorol yn achos anifail pedigri, ac ar gyfer unrhyw anifail buchol arall yn y mis blaenorol.

Yr iawndal ar gyfer Byffalo a Buail yw pris y farchnad.

Mae arfarniad rheoliadol wedi ei baratoi ac wedi ei roi yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau gan yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.